**EITEM AR YR AGENDA: 7**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**15 Hydref 2012**

**ALLDRO AMCANOL 2012-2013**

**Adroddiad gan Ken Finch, Trysorydd**

## Diben yr Adroddiad

1 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi alldro amcanol amcangyfrifiedig i'r Aelodau am flwyddyn ariannol 2012-2013.

## Cyflwyniad

2 Mae'r gwariant o'i gymharu â'r gyllideb yn cael ei fonitro'n agos gan staff y Gwasanaeth Tân ac Achub, a thynnir sylw at unrhyw amrywiadau, neu amrywiadau a ddisgwylir, cyn gynted ag y byddant yn digwydd er mwyn gallu rhoi mesurau yn eu lle i sicrhau nad oes risg ariannol i'r Awdurdod. Yr arwyddion presennol yw y bydd £640,122 o danwariant. Mae'r dadansoddiad manwl i'w gael yn Atodiad A, a dangosir unrhyw danwariannau gyda'r arwydd (-).

3 Mae'r tanwariant amcangyfrifedig yn fach o'i gymharu â chyllideb sy'n £32miliwn. Mae'r adroddiad yn ymdrin â gwariant gwirioneddol yn chwe mis cyntaf y flwyddyn ac amcangyfrifon am y chwe mis nesaf, sy'n cynnwys cyfnod y gaeaf. Mae'n bosibl y bydd tywydd garw yn effeithio ar y gwasanaeth, gan achosi cynnydd yn nifer yr achosion y cawn ein galw allan atynt. Os mai felly y bydd, caiff y tanwariant ei leihau oherwydd bydd angen rhagor o adnoddau i ariannu'r ffioedd am droi allan. Fodd bynnag, os nad felly y bydd, yna oherwydd y pwysau yn y dyfodol ar y gwasanaeth o ran codiad ym mhris tanwydd; cynnydd tebygol yng nghyfraniadau pensiwn y cyflogwyr; toriadau i'r Grant Cynnal Refeniw; a gostyngiad mewn arian grant, gellid defnyddio'r tanwariant i ymorol am rai o'r costau hyn yn y tymor byr. Oherwydd yr ansicrwydd hwn, argymhellir nad yw'r Aelodau ond yn nodi'r tanwariant ar hyn o bryd.

## Amrywiadau i'r Gyllideb

### Costau Gweithwyr

4 Mae cyfran fawr o wariant y Gwasanaeth Tân ac Achub yn ymwneud â chyflogau, ac mae arwyddion y bydd tanwariant net ar gyflogau eleni.

5 Wedi ei gynnwys yn y gyllideb ar gyfer Diffoddwyr Tân Amser Cyflawn, mae targed i gael £500k o arbedion, a chytunwyd ar hyn gan yr Aelodau yn ystod y broses o osod y gyllideb. Roedd y targed arbedion i'w sicrhau trwy gyflwyno system gylchrestru a oedd yn gostwng nifer y swyddi diffoddwyr tân angenrheidiol. Roedd y gostyngiad yn nifer y diffoddwyr tân i'w sicrhau trwy ddull naturiol ymddeoliadau. Fodd bynnag, oherwydd yr hinsawdd economaidd bresennol a phrinder swyddi y tu allan i'r gwasanaeth, mae nifer y diffoddwyr tân sy'n gadael yn is na'r disgwyl. Fodd bynnag, gellir gwrthbwyso'r gorwariant mewn rhannau eraill o'r gyllideb.

6 Gellir priodoli'r tanwariant ar Staff Cefnogol i ailstrwythuriad a arweiniodd at swyddi gwag yn cael eu llenwi'n hwyrach na'r amcangyfrif a nifer y swyddi a oedd heb gael eu llenwi ar y pryd.

7 Mae'r tanwariant amcangyfrifiedig ar ddiffoddwyr tân ar gael yn ôl y galw yn eithaf bach, sef £279k. Dylai'r Aelodau fod yn ymwybodol fod yr alldro'n seiliedig ar y lefelau gweithgarwch presennol sy'n eithaf isel ac os na fydd nifer o ddigwyddiadau mawr dros y chwe mis nesaf, gallai'r gorwariant yn hawdd droi'n ddiffyg sylweddol yn y gyllideb.

8 Mae'r tanwariant ar gyllideb y Prif Swyddogion yn ymwneud â swydd wag Prif Swyddog Tân Cynorthwyol sydd heb gael ei llenwi eto yn dilyn ymddeoliad deiliad blaenorol y swydd.

9 Bydd y pennawd Amrywiol yn y gyllideb yn cael ei orwario yn bennaf oherwydd bod cynnydd yng nghyfraniad yswiriant gwladol y cyflogwyr yn ddyledus ar ddefnyddwyr ceir prydles yn dilyn adolygiad gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

## Safleoedd

10 Ar gyllideb y safleoedd, y prif rannau o orwariant fydd costau ynni ac Adrethi Annomestig. Mae costau ynni wedi codi'n sylweddol, ac er bod cynlluniau yn eu lle i ddefnyddio llai, mae'r cynnydd yng nghost unedau yn fwy na'r arbedion a geir trwy ddefnyddio llai. Gellir priodoli'r tanwariant ar Ardrethu Annomestig yn bennaf i'r cynnydd yn yr adrethi sy'n daladwy ar gyfer Llangefni yn dilyn ailwerthuso'r safle yn dilyn y gwaith adnewyddu diweddar.

## Cludiant

11 Yn gyffredinol, amcangyfrifir fod gorwariant o £17k yn y gyllideb Cludiant. Mae hyn yn bennaf oherwydd cynnydd yng nghostau tanwydd.

## Cyflenwadau

12 Dan y pennawd Cyflenwadau a Gwasanaethau, amcangyfrifir ar hyn o bryd y bydd tanwariant ar gostau Cyfathrebu oherwydd oedi wrth gyflwyno'r gwaith datblygu sydd wedi arwain at arbediad ar gostau rhent llinellau yn y flwyddyn gyfredol.

13 Mae'r tanwariant ar Gostau Cyfrifiaduron oherwydd trafodaethau gyda chwmnïau meddalwedd i leihau costau trwyddedau a phenderfyniad i gadw rhai llwyfannau gweithredu presennol er mwyn lleihau costau.

14 Bu gostyngiad yn y premiymau yswiriant yn dilyn proses dendro gystadleuol.

## Gwasanaethau Cefnogol

15 Bydd y gorwariant amcangyfrifiedig ar Reoli Cyfleusterau yn cael ei wrthbwyso gan gynnydd mewn incwm o ffioedd cyfalaf a ddangosir yn yr adran ar incwm ar dudalen olaf yr atodiad.

## Cyllido Cyfalaf

16 Amcangyfrifir bod y costau dyledion a gysylltir â'r rhaglen gyfalaf yn llai na'r gyllideb wreiddiol oherwydd y cyfraddau llog isel a'r oedi ar rai prosiectau mawr megis Wrecsam, Tywyn a Nefyn.

## Incwm

17 Mae'r incwm ar Werthu yn ymwneud yn bennaf â'r incwm a geir o gael gwared ar nifer o gerbydau nad oes mo'u hangen mwyach gan y Gwasanaeth. Mae'n anodd gweld mewn unrhyw flwyddyn faint a dderbynnir gan ei bod yn dibynnu pa geir sy'n mynd yn ystod y flwyddyn a'r swm a geir ar adeg arwerthiant.

18 Mae'r incwm am Alwadau Gwasanaethau Arbennig yn llai na'r gyllideb oherwydd gostyngiad yn nifer y digwyddiadau y gellir codi amdanynt.

19 Mae'r llog ar falansau hefyd yn is na'r amcangyfrif gwreiddiol oherwydd y cyfraddau llog isel sy'n gyffredin. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad cyfatebol yn y llog i'w dalu ar fenthyciadau yn gwneud mwy na iawn am hynny.

## Argymhelliad

20 Bod yr Aelodau'n nodi'r tanwariant amcangyfrifiedig.